# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 17 Mai 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 70(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

I Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:

Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa sicrwydd y gall Ysgrifennydd y Cabinet ei roi bod y seilwaith TG yng Nghymru wedi'i ddiogelu, a sicrhau gofal

parhaus i gleifion Cymru yn dilyn yr ymosodiadau seibr yn y GIG yn Lloegr? TAQ(5)0173(HWS)

I Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig:

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y 1,761 o geisiadau Glastir sydd heb eu talu o hyd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod

(30 munud)

**NDM6301** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer gwelliant i Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

2. Yn nodi mai diben y gwelliant fyddai gwahardd hysbysebu eiddo yn ddi-rent gan landlordiaid sy'n disgwyl cydnabyddiaeth am hyn ar ffurf manteision rhywiol.

'Deddf Tai (Cymru) 2014'

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6305** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr amryfal risgiau y mae plant yn eu hwynebu wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

2. Yn nodi pwysigrwydd enfawr cymryd camau i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ar-lein, a'u haddysgu o ran y camau y dylent eu cymryd er mwyn helpu i ddiogelu eu hunain wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ymateb cynhwysfawr i bryderon a godwyd gan yr NSPCC (Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant), ynghylch cynnydd mewn galwadau cysylltiedig y mae wedi'u cael o ran diogelwch ar y rhyngrwyd.

4. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod blaenoriaethu diogelwch ar-lein yn rhan ganolog o bob strategaeth sy'n anelu at ddarparu cymunedau mwy diogel i blant ledled Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ail rifo yn unol â hynny:

Yn nodi pwysigrwydd llythrennedd ddigidol i Gymru, a bod annog defnydd diogel o'r rhyngrwyd yn rhan hanfodol o addysg plentyn.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i weithio gyda'r cwmnïau perthnasol i fynd i'r afael â cham-drin ar-lein, gan nodi'n arbennig y cam-drin y mae menywod a grwpiau lleiafrifol yn ei ddioddef.

## 7 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6308** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi anawsterau parhaus o ran hyfforddi a recriwtio staff meddygol (gan gynnwys meddygon) mewn sawl rhan o Gymru, yn enwedig Cymru wledig a gogledd Cymru.

2. Yn galw am ddatblygu ysgol feddygol ym Mangor fel rhan o ddatblygiad Cymru gyfan tuag at gynyddu hyfforddiant, recriwtio a chadw meddygon yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn croesawu ymgyrch recriwtio Llywodraeth Cymru Gwlad Gwlad: Hyfforddi Gweithio Byw sy'n annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys meddygon, i ddewis Cymru fel lle i hyfforddi, gweithio a byw ynddo.

2. Yn nodi:

a) y cafwyd cynnydd o 19 y cant yn y gyfradd ymgeisio ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd arbenigol i feddygon teulu yn 2017 a bod 84 y cant o'r llefydd hyfforddi ar gyfer meddygon teulu wedi'u llenwi ers i Gwlad Gwlad: Hyfforddi Gweithio Byw gael ei lansio, o'i gymharu â 68 y cant ar y cam hwn yn 2016;

b) bod mwy na 1,000 yn rhagor o ymgynghorwyr cyfwerth ag amser llawn yn gweithio yng Nghymru yn 2016 nag oedd ym 1999; ac

c) y cafwyd cynnydd o 12 y cant yn nifer y meddygon teulu oedd yn gweithio yng Nghymru rhwng 1999 a 2016.

**Gwelliant 2.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau iechyd ac addysg ar ddwy ochr y ffin i lunio rhaglen feddygol fwy cynhwysfawr ac ehangach ar gyfer gogledd Cymru.

## 8 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6310** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Gwerth Ychwanegol Gros y pen yn ardaloedd NUTS2 y cymoedd canolog a chymoedd Gwent yn gyson is na chyfartaledd Cymru.

2. Yn nodi bod diweithdra yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol cymoedd de Cymru yn uwch na chyfartaledd Cymru.

3. Yn nodi bod ansicrwydd o ran gwaith, cyflogau isel a thlodi yn broblemau sylweddol yng nghymoedd de Cymru.

4. Yn nodi hanes o danfuddsoddi yng nghymoedd de Cymru gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) creu Asiantaeth Ddatblygu'r Cymoedd sydd â'r grym a'r atebolrwydd priodol;

b) gwneud penderfyniad cadarnhaol ynghylch prosiect Cylchffordd Cymru, yn amodol ar y diwydrwydd dyladwy arferol; ac

c) rhoi mwy o flaenoriaeth o ran buddsoddiad mewn swyddi a seilwaith yn y cymoedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod effaith rhaglen barhaus Llywodraeth y DU o gyni ar gymunedau cymoedd de Cymru a gweddill Cymru, ac yn galw ar lywodraeth nesaf San Steffan i fuddsoddi mewn twf economaidd mwy cytbwys ar draws y DU.

2. Yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'n genedl deg o ran swyddi lle y gall pawb fanteisio ar well swyddi sy'n nes at eu cartrefi.

3. Yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru o ran:

a) cefnogi bron i 150,000 o swyddi yn ystod tymor y Cynulliad diwethaf. Roedd llawer o'r swyddi hyn yng nghymunedau'r cymoedd;

b) paratoi dull newydd o fynd i'r afael â datblygu economaidd er mwyn ysgogi twf rhanbarthol mwy cadarn;

c) cynllunio buddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith yn y cymoedd ac ar draws Cymru mewn modd sy'n cefnogi economïau rhanbarthol mwy cydnerth ac sy'n atgyfnerthu cadwyni cyflenwi lleol;

d) sefydlu Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn denu swyddi newydd, codi lefelau sgiliau a gwella gwasanaethau lleol;

e) datblygu rhaglen Swyddi Gwell yn Nes at Adre gan ddefnyddio ysgogiadau caffael i greu swyddi o werth mewn ardaloedd ag anghenion economaidd, fel y cymoedd; ac

f) sefydlu Comisiwn Gwaith Teg er mwyn helpu i greu economi lle y gall mwy o bobl yng nghymunedau'r cymoedd ac ar draws Cymru fanteisio ar swyddi da ac incwm sefydlog.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud i ddatblygu dinas-ranbarth Abertawe a phrifddinas-ranbarth Caerdydd, a fydd yn cynnig llawer o gyfleoedd cadwyn gyflenwi i gymoedd de Cymru.

## 9 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6309** [Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu, er bod achos dros gefnogi cymorth dyngarol a brys i wledydd eraill, yn arbennig mewn argyfyngau penodol, nad yw'n gwneud synnwyr bod y gyllideb cymorth dramor yn aros ar 0.7 y cant o incwm cenedlaethol gros (GNI).

2. Yn nodi bod dyled genedlaethol y DU wedi dyblu ers 2009, a'i bod, bellach, yn £1.6 triliwn, sy'n gyfystyr â £22,000 ar gyfer pob dyn, menyw a phlentyn yn y DU.

3. Yn credu bod angen ystyried llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud pob penderfyniad gwariant cyhoeddus ac y dylai Llywodraeth y DU werthuso'r gyllideb cymorth dramor yng nghyd-destun anghenion pwysig eraill gartref.

4. Yn galw am ddiddymu Deddf Datblygu Rhyngwladol (Targed Cymorth Datblygu Swyddogol) 2015, a oedd yn y diogelu'r ffigur targed o 0.7 y cant yng nghyfraith y DU.

5. Yn credu bod llawer o'r gyllideb cymorth dramor yn cael ei gwastraffu, yn cael ei dargyfeirio gan lygredd ac yn cael ei gwario'n anghynhyrchiol.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog Llywodraeth y DU i ostwng y gwariant targed ar gymorth dramor i 0.2 y cant o'r GNI, sy'n debyg i gyllidebau cymorth yr Unol Daleithiau, yr Eidal a Sbaen.

7. Yn credu y dylai'r £8 biliwn o arbedion a fyddai'n cael eu rhyddhau gael eu dargyfeirio'n gyfrannol i wledydd y DU a chael eu gwario ar achosion haeddiannol fel y GIG neu dai cymdeithasol.

'International Development (Official Development Assistance Target) Act 2015'

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi pwysigrwydd cymorth rhyngwladol o ran lleddfu dioddefaint dynol.

2. Yn cefnogi cyfraniad Cymru i brosiectau dyngarol drwy fentrau fel Cymru o Blaid Affrica.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio a chyhoeddi polisi rhyngwladol cynhwysfawr i Gymru sy'n cynnwys gwella gweithgareddau cymorth rhyngwladol y genedl.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer – SYMUDWYD I 16 MAI

**NDM6307** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Tanau trydan – bygythiad cynyddol yn yr oes dechnolegol sydd ohoni.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Mai 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Mai 2017 i'w hateb ar 17 Mai 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** **Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** Pa gymorth economaidd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu er mwyn sicrhau bod gennym fusnesau sy'n ffynnu ar y stryd fawr yng Nghymru? OAQ(5)0167(EI)

**2.** **Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gofnodi ein treftadaeth ddiwydiannol yng Nghymru? OAQ(5)0166(EI)

**3.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fynediad at atyniadau diwylliannol a threftadaeth yn ardal Caerffili? OAQ(5)0170(EI) **TYNNWYD YN ÔL**

**4.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Trafnidiaeth Cymru ar gyfer lleddfu tagfeydd i'r dwyrain o Gaerdydd? OAQ(5)0159(EI)

**5.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarpariaeth band eang cyflym iawn yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0164(EI)

**6.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** Pa effaith y mae amrywiadau diweddar mewn arian treigl wedi'i chael ar allforion o Gymru? OAQ(5)0168(EI)

**7.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth i fusnesau bach yng Nghymru? OAQ(5)0171(EI)**W**

**8.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth i fusnesau yn y diwydiant twristiaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0165(EI)

**9.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y gall Cymru wledig hybu ei heconomi? OAQ(5)0172(EI)

**10.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o welliannau posibl i'r gwasanaeth rheilffordd ar linell Maesteg i Gaerdydd? OAQ(5)0163(EI)

**11.** **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa bolisi y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn i gefnogi busnesau yng nghanol dinasoedd yng Nghymru? OAQ(5)0160(EI)

**12.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am brentisiaethau yng Nghymru? OAQ(5)0169(EI) **TYNNWYD YN ÔL**

**13.** **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran pryd y mae'n disgwyl gwneud penderfyniad ar Gylchffordd Cymru? OAQ(5)0161(EI)

**14.** **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei bolisïau ar gyfer hybu twf economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0162(EI)

**15.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gam nesaf deuoli'r A465 o Dowlais Top i Hirwaun? OAQ(5)0173(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** **Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran lleihau amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig? OAQ(5)0170(HWS)

**2.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu'r gwasanaeth iechyd sydd ei angen ar bobl Cymru yng ngoleuni'r heriau economaidd presennol? OAQ(5)0172(HWS)

**3.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaeth sydd wedi bod rhwng yr Ysgrifennydd Cabinet a Llywodraeth y DU parthed effeithiau llygredd awyr ar iechyd cyhoeddus? OAQ(5)0165(HWS)**W**

**4.** **Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0169(HWS)

**5.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cleifion yn cael profion diagnostig a thriniaeth o fewn amseroedd targed? OAQ(5)0161(HWS)

**6.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fynediad at wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru? OAQ(5)0160(HWS)

**7.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r effaith a gaiff rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr ar y strategaeth genedlaethol dros chwaraeon cymunedol? OAQ(5)0167(HWS)

**8.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran gwella canlyniadau iechyd yn Sir Drefaldwyn? OAQ(5)0168(HWS)

**9.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer diagnosis o ganser y coluddyn yng Nghymru? OAQ(5)0171(HWS) **TYNNWYD YN ÔL**

**10.** **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella maeth yn ysbytai Cymru? OAQ(5)0163(HWS)

**11.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ynghylch pwysigrwydd ffordd o fyw o ran hybu iechyd da? OAQ(5)0164(HWS)

**12.** **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau ar gyfer y GIG yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0162(HWS)

**13.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0159(HWS)**W**

**14.** **David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am amseroedd aros y GIG yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0166(HWS)

**15.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(5)0157(FM)